# PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1A, Neuadd y Sir, Rhuthun, Dydd Mercher, 5 Tachwedd 2014 am 9.30 am.

## YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr J.M. McLellan (Cadeirydd), J. Butterfield, P.C. Duffy, M.L. Holland, G.M. Kensler a Mr P. Whitham (Aelod Lleyg).
Roedd y Cynghorwyr Julian Thompson-Hill a Barbara Smith yn bresennol fel arsylwyr.

## HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd(GW), Pennaeth Archwilio Mewnol (IB), Pennaeth Cymorth Cwsmeriaid ac Addysg (JW), Prif Gyfrifydd (RW), Swyddog Caffael Strategol Dros Dro (SA), Swyddog Gwella Corfforaethol (NK), Swyddog Cwynion Corfforaethol (COG), Cynrychiolwyr Swyddfa Archwilio Cymru (GB) a Gweinyddwr Pwyllgor (CIW).

## 1 YMDDIHEURIADAU

Y Cynghorwyr Stuart Davies a Hugh Irving.

## 2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Eitem 6 ar yr Agenda: Adolygiad o'r Gofrestr Risg Corfforaethol – Datganwyd cysylltiad personol gan y Cynghorydd M.L. Holland. Y rheswm am y datganiad oedd mai ef oedd Cyfarwyddwr Asiantaeth Menter Sir Ddinbych.

## 3 MATERION BRYS

Yn unol â gofynion Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, nododd y Cadeirydd ei fwriad i gynnwys y mater canlynol i'w drafod oherwydd bod angen rhoi sylw brys iddo o dan ddarpariaethau Rhan II:-

**(i) Adroddiadau Gwybodaeth: -**

(a) Cynnydd ar Gynllun Sicrwydd Archwilio Mewnol Blynyddol 2014/15 - Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham ynghylch yr hunanasesiad a gynhaliwyd gan Archwilio Mewnol, cytunodd y Pennaeth Archwilio Mewnol (PAM) y gellid cyflwyno'r Cynllun Gweithredu sy'n codi o'r asesiad o ran gwella'r gwasanaeth i'r cyfarfod Pwyllgor ym mis Ionawr, 2015.
***(IB i Weithredu)***

(b) Adrodd ar y Gwasanaeth Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid - Mewn ymateb i bryderon a godwyd gan Mr P. Whitham ynghylch yr amserlen ar gyfer dosbarthu'r ddogfen, a'r angen posibl i godi proffil yr adroddiad, eglurodd yr AEI bod cyflwyniad

yr adroddiad yn rhan o broses i fynd i'r afael ag unrhyw Adroddiadau Rheoleiddio Allanol nodedig.

**(ii) Gwahoddiad i Gwrs Llywodraethu Da**

Hysbysodd HLHDS y Pwyllgor y byddai'n dosbarthu gwahoddiad, a gafwyd gan Swyddfa Archwilio Cymru, am enwebiadau ar gyfer pum cynrychiolydd i fynychu Cwrs Llywodraethu Da, a gynhelir yn Llanrwst ar 11 Rhagfyr 2014.
**(GW i Weithredu)**

## 4 COFNODION

**(a)** Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 3 Medi 2014.

Materion yn codi:-

6. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol - Hysbyswyd yr Aelodau y byddai Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cael ei gynnwys ar Raglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor ar gyfer y cyfarfod ar 3 Chwefror, 2015.
**(JM (Cadeirydd) a GW i Weithredu)**

5. Diweddariad Ysgol Uwchradd Gatholig y Bendigaid Edward Jones - Mewn ateb i gwestiwn gan y Cadeirydd ynghylch y cais i gyflwyno'r adroddiad Archwilio Mewnol ar reolaeth ariannol ysgolion i'r Pwyllgor, cadarnhaodd y PAM y gellid cyflwyno'r adroddiad i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr, 2014.
**(IB i Weithredu)**

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

**(b)** Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a gynhaliwyd ar 29 Medi 2014.

Materion yn codi:-

6. Cynllun Gwella Llywodraethu - Eglurodd y PAM y byddai'r diweddariad ar y cynnydd o ran y Strategaeth Caffael yn cael ei ymgorffori yn yr Adroddiad Diweddaru Adeiladu a Gwasanaethau sydd i'w gyflwyno i gyfarfod y Pwyllgor ym mis Rhagfyr, 2014.
**(IB i Weithredu)**

***PENDERFYNWYD –*** *y dylid derbyn a chymeradwyo'r Cofnodion fel cofnod cywir.*

## 5 PROSES Y GYLLIDEB 2015/16

Roedd adroddiad, ac atodiad cyfrinachol, gan y Pennaeth Cyllid ac Asedau (PCA), a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflawni'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16, wedi ei ddosbarthu eisoes.

Cyflwynodd y PCA yr adroddiad a oedd yn rhoi diweddariad ar y broses i gyflwyno'r gyllideb refeniw ar gyfer 2015/16, a oedd wedi symud i'w ail gam ers y diweddariad diwethaf. Roedd Atodiad 1 yn dangos y darlun o broses y gyllideb, ac roedd tabl o ddigwyddiadau allweddol yn y broses wedi'i gynnwys yn yr adroddiad

Daeth y rownd gyntaf o weithdai cyllideb i gasgliad ar 22 Medi. Roedd llawer yn bresennol yn y gweithdai, gydag ystod eang o drafodaeth a nifer o gwestiynau yn cael eu gofyn. Gofynnwyd i Aelodau fynegi barn ynghylch a ddylai cynigion arbed gael eu 'mabwysiadu', ‘datblygu', neu eu 'gohirio'. Yn ogystal, aethpwyd ag Aelodau drwy gyllideb pob gwasanaeth a'u gwahodd i wneud sylwadau ar bob un. Cafodd cynigion y dynododd yr aelodau y buasent yn fodlon eu mabwysiadu eu cyflwyno i'r Cyngor Sir i'w cymeradwyo ar 9 Medi. Daeth y cynigion a gymerwyd i'r Cyngor fel arbedion Cam 1 i gyfanswm o £3.7m ar gyfer 15/16 ac £870k ar gyfer 16/17.

Roedd strategaeth cyllideb y Cyngor wedi nodi bwlch yn y gyllideb o hyd at £18m dros ddwy flynedd. Cafodd hyn ei lywio'n bennaf gan arwyddion y byddai setliad cyllido'r Cyngor yn cael ei dorri o 4.5%. Cafodd y Setliad Llywodraeth Leol Drafft ei gyhoeddi ar 8 Hydref, ac roedd y setliad wedi nodi y byddai'r gostyngiad arian parod i'r gyllideb yn 3.7% a oedd yn cyfateb i £5.3m. Gyda'r pwysau o ran costau, roedd yn rhaid i'r Cyngor ariannu'r bwlch yn y gyllideb ar gyfer 2015/16 a oedd bellach tua £8.2m ac amcangyfrifir y bydd tua £8.8m yn 2016/17. Amlygodd y CA bwysau posibl a allai godi o ganlyniad i addasiadau, i mewn ac allan, sy'n gysylltiedig â chyllid grant penodol. Cyfeiriwyd yn benodol at yr effaith o amgylch y Gronfa Gydweithredu Rhanbarthol ar gyfer y rhaglen Gofal Cymdeithasol. Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y CA i ddarparu manylion am y goblygiadau ar y gyllideb mewn perthynas â phwysau'r cyllid grant.

Roedd ail gam proses y gyllideb bron wedi'i gwblhau. Roedd aelodau wedi nodi cynigion a oedd yn gyfanswm o £3.2m ar gyfer 2015/16 ac £1.8 miliwn ar gyfer 2016/17 a fyddai'n ceisio cymeradwyaeth ym mis Rhagfyr. Os byddai'r holl gynigion a gymerwyd i'r gweithdy terfynol ym mis Hydref yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo, yna byddai'r cyfansymiau yn £4.0m ar gyfer 2015/16 a £2.1m ar gyfer 2016/17 o Gam 2.

Byddai cynigion Cam 2 yn cael eu cyflwyno i'r Cabinet ac yna i'r Cyngor i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr. Byddai Cam 3 yn ystyried cynigion terfynol i gydbwyso cyllideb 2015/16, gan gynnwys opsiynau ar gyfer Treth y Cyngor ac unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn. Byddai'r materion hyn yn cael eu trafod yng Ngweithdy'r Aelodau ym mis Rhagfyr cyn cael cymeradwyaeth derfynol ym mis Chwefror. Byddai Cam 3 o'r broses hefyd yn parhau i ddatblygu opsiynau arbedion ar gyfer 2016/17. Roedd manylion y broses ymgynghori a fabwysiadwyd yng nghyswllt y toriadau yn y gyllideb wedi cael eu crynhoi yn yr adroddiad.

Cyfeiriodd y Cadeirydd at gylch gwaith y Pwyllgor i archwilio'r broses gosod cyllideb y teimlai ei fod wedi bod yn agored ac yn dryloyw. Fodd bynnag, roedd wedi bod yn

ymwybodol o faterion a godwyd mewn perthynas â'r Adolygiad o Wasanaethau Cynghori ar Les. Tynnodd sylw at y goblygiadau ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau a'r gymuned ehangach, y risgiau a nodwyd yng ngweithdy cyllideb mis Gorffennaf ynghylch diswyddiadau, a'r Flaenoriaeth Gorfforaethol i wella'r economi leol.

Cyfeiriwyd at yr adolygiad a gynhaliwyd gan wahanol Grwpiau, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector. Cwestiynodd y Cadeirydd y rheswm dros ystyried dim ond un o'r modelau o dan yr adolygiad a gyflwynwyd i'r Aelodau er trafodaeth. Amlinellodd y CA y broses a ddefnyddiwyd ac a fabwysiadwyd ar gyfer ystyried opsiynau, a chytunodd i ddarparu copi o'r adroddiad Adolygiad o Wasanaethau Cynghori ar Les i Aelodau'r Pwyllgor. Cytunodd yr Aelodau y dylai'r adolygiad o'r broses a ddefnyddiwyd o ran yr Adolygiad Gwasanaethau Cynghori Lles gael ei wneud gan y Pwyllgor, ynghyd â chynigion yn ymwneud â Hawliau Tramwy a oedd wedi'u hamlygu gan y Cynghorydd G.M. Kensler.

Teimlai Mr P. Whitham, gan fod cylch gwaith y Pwyllgor yn cynnwys adolygu risgiau, ac y byddai risg cynhenid sy'n deillio o'r broses o bennu cyllideb, y gellid cymryd y cyfle i sicrhau bod y broses yn gadarn a bod yr wybodaeth a roddir i Aelodau i wneud penderfyniadau yn briodol.

Darparodd y CA fanylion am y risgiau sy'n deillio o weithredu penderfyniadau a wnaed o ran y broses o bennu cyllideb a thoriadau 2015-16 a 2016-17. Cadarnhaodd fod mecanwaith ar waith i ailymweld â thoriadau a nodwyd, a oedd yn cynnwys adroddiadau misol i'r Cabinet, a rhoddodd hyn y cyfle i nodi unrhyw ddiffyg cyflawniad.

Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler, cytunodd y CA y gellid darparu rhestr o wasanaethau wedi'u craffu gan y gweithdai cyllideb, gan gynnwys dyddiadau. Eglurodd hefyd y gallai taliadau ar gyfer casglu gwastraff gwyrdd gael eu cynnwys o fewn biliau treth gyngor y trigolion sydd am ddefnyddio'r gwasanaeth.

Amlinellodd yr HLHDS ddiben y broses Rhyddid a Hyblygrwydd, i herio gwasanaethau ynghylch y modd y maent yn darparu gwasanaethau, ac yna cyflwyno opsiynau i Aelodau i gynorthwyo gyda'r broses o wneud penderfyniadau o ran y gyllideb. Roedd Aelodau hefyd wedi cael gwybodaeth lawn ar gyllidebau gwasanaeth er mwyn iddynt allu ceisio gwybodaeth ychwanegol neu awgrymu mesurau amgen. Cyfeiriodd at Brotocol y Gyllideb a oedd wedi ei gytuno gan y Cyngor ar 4 Tachwedd, 2014 a roddodd y cyfle i Aelodau archwilio awgrymiadau eraill.

Eglurodd y Cadeirydd bod ganddo ef ac Aelodau'r Pwyllgor bryderon ynghylch rhai o elfennau proses y gyllideb o ran darparu gwybodaeth ar wahanol fodelau o ddarpariaeth a ddaw o ryddid a hyblygrwydd. Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor â'r awgrym canlynol a gyflwynwyd gan yr HLHDS, sef: -

Er mwyn profi a cheisio sicrwydd ynghylch tryloywder proses y gyllideb, mae'r Pwyllgor yn gofyn am ragor o wybodaeth am opsiynau amgen a ystyriwyd yn ystod y safbwyntiau am Hawliau Lles, fel enghraifft gynrychioliadol. Cytunodd yr Aelodau hefyd y dylid cynnwys cynnig yr Hawliau Tramwy.

Ar gais y Cadeirydd, cytunodd y CA y dylid darparu gwybodaeth mewn perthynas â grantiau.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -*

*(a) yn derbyn ac yn nodi cynnwys yr adroddiad.*
*(b) yn ceisio rhagor o wybodaeth am opsiynau amgen a ystyriwyd yn ystod y safbwyntiau am Hawliau Lles a Hawliau tramwy, fel enghreifftiau cynrychioliadol.*
*(c) yn gofyn bod y CA yn rhoi manylion am y goblygiadau ar y gyllideb mewn perthynas â'r pwysau cyllid grant, ac*
*(d) yn cytuno y gellid darparu rhestr o wasanaethau wedi'u craffu gan y gweithdai cyllideb, gan gynnwys dyddiadau.*

***(RW i weithredu)***

## 6 ADOLYGIAD COFRESTR RISG CORFFORAETHOL

Adroddiad gan y Pennaeth Busnes, Cynllunio a Pherfformio (HBPP), a ofynnodd i ystyried y fersiwn wedi'i ddiweddaru'n ffurfiol o'r Gofrestr Risgiau Corfforaethol (CRR) y cytunwyd arno ym Mriff y Cabinet, a ddosbarthwyd ynghynt.

Gyda chymorth cyflwyniad PowerPoint, oedd yn rhoi manylion am y system VERTO sydd ar gael i'r holl Aelodau ar Fewnrwyd y Cyngor, darparodd y Swyddog Gwella Corfforaethol (CIO) grynodeb manwl o'r adroddiad.

Galluogodd y CRR i'r cyngor reoli'r tebygolrwydd ac effaith y risgiau roedd yn eu hwynebu drwy werthuso effaith unrhyw weithredoedd cyfredol i liniaru risg, a chofnodi dyddiadau cau a chyfrifoldebau ar gyfer gweithredoedd pellach a ddylai sicrhau rheolaeth well. Cafodd ei ddatblygu gan CET ac yn eiddo iddynt, ac roedd y broses adolygu wedi cael ei nodi yn yr adroddiad.

Cafodd y Gofrestr ei gwirio'n ffurfiol gan y Cabinet a gan CET ddwywaith y flwyddyn. Byddai unrhyw risgiau newydd neu gynyddol sylweddol a nodwyd yn cael eu cyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol, drwy'r Tîm Gwella Corfforaethol. Yna, byddai CET yn penderfynu a ddylid cynnwys y risg yn y CRC.

Yn dilyn pob adolygiad ffurfiol o'r Gofrestr, byddai'r ddogfen ddiwygiedig yn cael ei chyflwyno i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol. Byddai'r gweithredoedd a nodir er mwyn delio â risgiau corfforaethol yn cael eu cynnwys mewn Cynlluniau Gwasanaethau, lle y bo'n briodol, a fyddai'n galluogi i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad fonitro cynnydd. Dylid amlygu unrhyw faterion perfformiad mewn perthynas â darparu'r digwyddiadau fel rhan o broses Herio Perfformiad Gwasanaethau.

Roedd Archwiliad Mewnol y Cyngor (IA) yn darparu sicrwydd annibynnol ar effeithiolrwydd dulliau rheoli mewnol a'r dulliau sydd wedi'u gosod er mwyn lliniaru risgiau yn y cyngor. Roedd hefyd yn cynnig her annibynnol i sicrhau bod egwyddorion a gofynion rheoli risg yn cael eu defnyddio'n gyson ym mhob rhan o'r

Cyngor. Roedd Gwasanaethau Archwilio Mewnol hefyd yn defnyddio gwybodaeth o'r gwasanaethau a'r Gofrestr Risg Corfforaethol er mwyn penderfynu ar eu rhaglen gwaith i'r dyfodol.

Cyfeiriodd y CIO at Atodiad 1 yr adroddiad a oedd yn cynnwys y prif newidiadau a wnaed i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ynghyd ag unrhyw bwyntiau o bwys. Darparwyd crynodeb o'r Camau Gweithredu canlynol gan y CIO: -

- Diwygiad i DCC007: 'Y risg bod gwybodaeth hanfodol neu gyfrinachol yn cael ei cholli neu ei datgelu'.
- Risg newydd, DCC027: 'Ni chaiff y risg bod y penderfyniadau sy'n angenrheidiol i alluogi darpariaeth o gyllideb gytbwys ei gymryd neu ei weithredu yn ddigon cyflym'.
- Risg newydd, DCC029: 'Risg o her lwyddiannus ein bod yn amddifadu pobl o'u rhyddid yn anghyfreithlon'.

Ymatebodd y CIO i gwestiynau gan Aelodau, ac amlygwyd y materion canlynol: -

- DCC013: 'Y risg o rwymedigaethau ariannol ac enw da sylweddol yn deillio o reoli sefydliadau o Hyd Braich'. Cwestiynodd y Cynghorydd G.M. Kensler ddyddiad cyflwyno disgwyliedig o fis Mawrth 2015 ar gyfer y toriadau arfaethedig i'r gyllideb. Cadarnhaodd y CIO fod y risg a nodwyd yn ymwneud â rheolaeth y sefydliad.

- DCC018: 'Y risg na fydd buddiannau rhaglen a phrosiect yn cael eu gwireddu'n llawn'. Cadarnhaodd y COI fod y cam gweithredu wedi sicrhau bod y prosiectau a weithredir yn gwireddu'r manteision y cytunwyd gan yr Achos Busnes yn wreiddiol.

- DCC021: 'Y risg nad yw partneriaethau a rhyngwynebau effeithiol rhwng Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych (CSDd) yn datblygu, gan arwain at camleoliad sylweddol rhwng cyfeiriad strategol a gweithredol Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr a Chyngor Sir Ddinbych'. Cadarnhaodd y CIO y byddai'r risg yn cael ei adolygu ym mis Mawrth neu fis Ebrill, 2015.

- DCC028: 'Y risg bod y gwasanaethau rydym yn eu graddio yn ôl yn cael mwy o effaith negyddol na'r disgwyl'. Eglurwyd y byddai'r risgiau lliniarol yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn dilyn cyfnod o chwe mis. Mewn ymateb i bryderon a fynegwyd y gallai'r tri risg gweddilliol coch a nodwyd fod yn destun adroddiadau rheolaidd, darparodd yr HIA fanylion am y cylch gwaith Archwilio Mewnol wrth fonitro risgiau gweddilliol uchel.

Darparodd yr HLHDS fanylion yn ymwneud â rôl a chylch gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, sef sicrhau bod proses a gweithdrefn Rheoli Risg priodol ar waith, ac y byddai rheoli risgiau unigol yn swyddogaeth craffu ar berfformiad. Cadarnhaodd y gellid argymell materion gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer craffu.

***PENDERFYNWYD -** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -*

> *(a) nodi'r hyn a ddilëir, ychwanegiadau a newidiadau i'r Gofrestr Risg Gorfforaethol, ac*

*(b) yn gofyn bod sylwadau'r Aelodau yn ystod y ddadl yn cael eu nodi'n unol â hynny.*

***(GW ac NK i Weithredu)***

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor y byddai'r eitemau ar yr agenda sy'n weddill yn cael eu cymryd yn y drefn ganlynol:- 9, 10, 11, 12, 7, 8, 13, 14, 15.

## 7 TALIAD ARIANNOL I RAI SY'N GADAEL GOFAL - DIWEDDARIAD

Adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol (HIA) (mae copi yn amgaeedig) sy'n rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd gyda'r cynllun gweithredu a gynhwyswyd yn yr adroddiad Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheini sy'n Gadael Gofal a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2014.

Roedd adroddiad wedi'i gyhoeddi gan Archwilio Mewnol ar Daliadau Ariannol i'r Rheini sy'n Gadael Gofal ym mis Mawrth 2014, a oedd wedi cynnwys Cynllun Gweithredu gyda phedwar Mater Cymedrol ac 14 o gamau gweithredu i fynd i'r afael â nhw. Ar 15 Ebrill 2014, mynegodd y Pwyllgor rai pryderon o ran bod y broses dalu bresennol yn anghynaladwy ac felly bu i'r Pwyllgor ofyn i Archwilio Mewnol gynnal adolygiad dilynol ac adrodd yn ôl iddynt.

Rhoddodd Atodiad 1 ddiweddariad ar gynnydd y cynllun gweithredu a ddangosodd mai dim ond pump o'r camau gweithredu oedd wedi eu cwblhau, gyda thri arall ar y gweill. Nid roddwyd sylw i chwech o'r camau gweithredu, gan gynnwys y prif fater a godwyd (Mater 1), a oedd yn gofyn am adolygiad llawn o'r broses ar gyfer gwneud taliadau i bobl sy'n gadael gofal. Yn dilyn trafodaethau cychwynnol, ni fu unrhyw gyswllt rhwng y Gwasanaethau Cymdeithasol a Refeniw a Budd-daliadau er mwyn trafod dull corfforaethol. Roedd y diffyg cynnydd o ran y mater allweddol hwn hefyd wedi cael effaith ar faterion eraill o fewn y cynllun gweithredu. Bydd Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad pellach ym mis Ionawr 2015.

Cytunodd y Cadeirydd â'r farn a fynegwyd gan y pennawd gweithredu, nad oedd cyfarfod wedi ei gynnal rhwng y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal, wedi cael effaith andwyol ar rai o'r camau gweithredu eraill a nodwyd. Mynegwyd pryderon ynghylch y diffyg cynnydd o ran gweithredu'r camau y cytunwyd arnynt, a methiant i gwrdd â therfynau amser, gan y Pwyllgor, a chyfeiriwyd yn benodol at Rif Gweithredu 1 heb ei gwblhau. Awgrymodd y dylai mwy o fanylion cefndir a chyd-destun gael eu darparu gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar yr effaith roedd y diffyg camau gweithredu yn ei gael ar y defnyddwyr gwasanaeth. Cadarnhaodd yr HIA fod y broses bresennol a ddefnyddiwyd wedi cael ei nodi fel hen-ffasiwn ac angen ei adolygu.

Cefnogodd y Pwyllgor awgrym y Cynghorydd J. Butterfield y dylid gwahodd y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal i fynychu'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ym mis Rhagfyr 2014 i egluro'r diffyg cynnydd a rhoi sicrwydd bod y cynllun gweithredu bellach ar waith. Gofynnodd yr Aelodau bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor gan ddarparu mwy o fanylion a chyd-destun ar yr effaith roedd y diffyg gweithredu yn ei gael ar ddefnyddwyr gwasanaethau.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -*

*(a) yn derbyn yr adroddiad.*
*(b) yn cytuno i wahodd y Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a'r Rheolwr Gwasanaeth - Plant sy'n Derbyn Gofal i fynychu cyfarfod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar 17 Rhagfyr, 2014, ac*
*(c) yn gofyn bod adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor er mwyn darparu mwy o fanylion a chyd-destun ar yr effaith roedd y diffyg gweithredu yn ei gael ar ddefnyddwyr gwasanaethau.*

***(IB i Weithredu)***

## 8 POLISI TWYLL A LLYGREDD

Mae adroddiad gan Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd (HLHDS) wedi'i ddosbarthu'n flaenorol.

Cyflwynodd yr HLHDS yr adroddiad ac eglurodd fod y Cyngor yn cyflogi dros 4,000 o staff ac yn gwario tua £250 miliwn y flwyddyn. Comisiynodd a darparodd amrywiaeth eang o wasanaethau i unigolion a chartrefi ac mae wedi gweithio gydag ystod eang o sefydliadau yn y sectorau preifat, cyhoeddus a gwirfoddol.

Tynnodd sylw at y risg barhaus o golled o ganlyniad i dwyll a llygredd o ffynonellau mewnol ac allanol, a'r risg o lwgrwobrwyo wrth i'r Cyngor ddarparu a chaffael nwyddau, gwaith a gwasanaethau. Cafodd systemau cymesur eu cyflwyno i leihau'r risgiau a chafodd y rhain eu hadolygu'n gyson. Cafodd y systemau a'r gweithdrefnau eu nodi yn y canllawiau ym mharagraff 5.12.

Cafodd Polisi diwygiedig drafft, Atodiad 1, a oedd yn ddogfen hir sengl, ei rannu'n ddwy ddogfen. Roedd Atodiad 1 yn ddatganiad o Bolisi yn cynnwys y prif egwyddorion y byddai'r Cyngor yn mynd i'r afael â thwyll, llwgrwobrwyo a llygredigaeth. Roedd Atodiad 2 yn ddogfen gyfarwyddyd yn egluro cefndir a'r polisïau a'r gweithdrefnau sydd ar waith i gefnogi'r Polisi. Darparodd yr HLHDS grynodeb manwl o gynnwys yr Atodiadau.

Pwysleisiodd bwysigrwydd bod unrhyw bolisi sy'n honni i wrthsefyll y bygythiad o dwyll a llygredd yn cael ei gadw'n gyfoes a'i adolygu yng ngoleuni datblygiadau deddfwriaethol, technolegol a phroffesiynol newydd. Byddai'r polisi yn cael ei adolygu bob tair blynedd hyd nes ceid unrhyw newidiadau penodol mewn deddfwriaeth. Eglurwyd y byddai'r Adran Gwaith a Phensiynau yn cynnal gwasanaeth unigol ymchwilio i dwyll o fis Ebrill, 2015 ac y byddai'r Polisi yn cael ei ddiwygio yn unol â hynny.

Cafodd teitl y polisi ei ddiwygio i gynnwys cyfeiriad at lwgrwobrwyo, er mwyn ystyried newidiadau i ddeddfwriaeth a ddaeth yn sgil Deddf Llwgrwobrwyo 2010. Ystyriwyd canllawiau arfer gorau gan y canllawiau hefyd, megis y CIPFA - "Llyfr Coch 2 - Rheoli'r Risg o Dwyll".

Darparodd y Datganiad Polisi a’r gweithdrefnau ategol neges glir na fyddai'r Cyngor yn goddef unrhyw amhriodoldeb gan weithwyr, Aelodau Etholedig na sefydliadau trydydd parti. Cadarnhaodd yr HLHDS ei bod yn bwysig cynnal gwyliadwriaeth a bod yr holl weithwyr, Aelodau Etholedig a phartneriaid yn ymwybodol o'r broses ar gyfer adrodd am bryderon neu amheuon. Mae Atodiad 2 yn rhoi cyngor clir ar y broses adrodd. Cafwyd datganiad clir o ymrwymiad y Cyngor i gymryd camau gorfodi cadarn lle caiff gweithgaredd anghyfreithlon neu lygredig ei ganfod. Cadarnhawyd y byddai'r Cyngor yn parhau i addasu a mabwysiadu dull rhagweithiol i atal gweithgareddau twyllodrus, ac y byddai Archwilio Mewnol yn cynnal adolygiad blynyddol o effeithiolrwydd y rheolaethau.

Mewn ymateb i awgrym gan y Cynghorydd H.L. Holland y dylid gwneud bwriad y Cyngor i ddelio ag unrhyw gamymddygiad cysylltiedig yn gliriach ac yn fwy cadarn, cytunodd yr HLHDS bod angen diwygio Rhif 8 o’r Datganiad Polisi, Tudalen 55, i ddarllen "Nid yw'r Cyngor yn cymryd rhan, ac ni fydd yn cymryd rhan, yn anuniongyrchol neu fel arall, mewn unrhyw weithgarwch sy’n annog llwgrwobrwyo. Mae’r Cyngor yn ymrwymedig i atal, osgoi a darganfod llwgrwobrwyaeth.” A gall Rhif 9 gael ei gynnwys i ddarllen "Nid yw’r Cyngor yn goddef dim twyll, lladrad, llygredd na llwgrwobrwyo".

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cytunodd yr HLHDS y dylid diwygio cyfeiriad at Aelodau Etholedig yn Atodiad 2 i gynnwys Aelodau Cyfetholedig, neu gynnwys diffiniad o Aelodau. Nododd Mr Whitham hefyd nad oedd unrhyw gyfeiriad at Lwgrwobrwyo, dim ond at Dwyll a Llygredd, ar Dudalen 18 o Atodiad 1 a Thudalen 32 o Atodiad 3.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, yn amodol ar y materion a godwyd, yn nodi cynnwys y Polisi Gwrth Dwyll, Llwgrwobrwyaeth a Llygredd drafft ac yn ei argymell i'w gymeradwyo gan y Cabinet.*
***(GW i Weithredu)***

## 9 RHEOLAU’R WEITHDREFN GONTRACTAU

Roedd adroddiad gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro (ASPM) eisoes wedi'i ddosbarthu.

Cyflwynodd yr adroddiad y Rheolau Gweithdrefn Contractau drafft i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar gyfer ei adolygu a rhoi sylwadau arno cyn ei gyflwyno i'r Cyngor llawn i'w gymeradwyo ar 9 Rhagfyr 2014, fel y mae’r manylion yn dangos yn Atodiad 1 o’r adroddiad.

Nid oedd y Rheolau Gweithdrefnau Contract presennol wedi cael eu hadolygu'n llawn ers eu mabwysiadu yn 2004. Roedd y ddogfen wedi caei ei hadolygu gan y Rheolwr Caffael Strategol Dros Dro a Dirprwy Swyddog Monitro yn unol â deddfwriaeth gyfredol a’r gweithdrefnau caffael arferion gorau diweddaraf.

Mae ychwanegu cymalau sy'n gwneud ystyried cymalau Budd i'r Gymuned ym mhob contract uwchlaw £2,000,000 wedi cyfrannu at flaenoriaeth y Bwrdd

Uchelgais Economaidd a Chymunedol. Yr isaf yw'r trothwyon ariannol, byddai'n galluogi i fwy o gyfleoedd gwerth tendro llai i gael eu hysbysebu a fyddai'n caniatáu i fusnesau bach a chanolig lleol i fod yn fwy ymwybodol o gyfleoedd. Cynhaliwyd ymgynghoriad gyda'r holl feysydd Gwasanaeth o ran adolygu Rheolau Gweithdrefn y Contractau. Roedd yr holl sylwadau wedi cael eu hadolygu a'u hystyried lle bo'n briodol ac yn berthnasol i ofynion y ddogfen.

Cadarnhaodd ASPM y gallai'r brif risg godi o Adrannau nad ydynt yn cydymffurfio â'r Rheoliadau Gweithdrefn Contractau newydd a all amharu ar Reolau Caffael y DU a'r UE. Byddai rhaglen hyfforddi'n cael ei darparu ar gyfer pob maes gwasanaeth yn dilyn gweithredu'r dogfennau diwygiedig i ddiffinio ei gofynion a'r goblygiadau o beidio â chydymffurfio. Roedd y Rheolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig, Atodiad 1, a chrynodeb o'r newidiadau allweddol, Atodiad 2, wedi eu cynnwys gyda'r adroddiad.

Ymatebodd ASPM i gwestiwn gan y Cynghorydd M.L. Holland a rhoddodd fanylion rheolaethau'r weithdrefn gymeradwyo. Cadarnhaodd bod newidiadau i'r system rheoli gwybodaeth ar gyfer ysgolion wedi eu cyflwyno yn ddiweddar, ac eglurodd y byddai gwerthuso tendrau, o ran y pris ac ansawdd, o fewn cylch gwaith y Rheolwr Prosiect.
Cytunodd yr ASPM i ddarparu ymateb i Mr P. Whitham mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag agregau.

Mewn ymateb i gwestiwn gan Mr P. Whitham, cytunwyd y byddai cynnig o hyfforddiant i Aelodau Etholedig o ran Rheolau Gweithdrefn Contractau, gan gynnwys arddangosiad o'r system, yn cael ei gynnwys yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor.

Ymatebodd yr ASPM i gwestiynau gan y Cynghorydd G.M. Kensler a rhoddodd fanylion y Rhestr Gymeradwy o Gontractwyr, a oedd yn anhylaw ac a fydd yn dirwyn i ben ym mis Ebrill, 2016 a'i ddisodli gan gytundebau fframwaith gyda nifer llai o gyflenwyr.

Darparodd yr HLHDS fanylion am y broses ar gyfer gwerthu neu gaffael tir. Eglurodd y byddai Priswyr Cymwysedig yn Adran Ystadau'r Cyngor yn cynghori ar y dulliau priodol ar gyfer ymdrin â materion o'r fath. Cadarnhawyd y byddai'r holl drafodion yn destun proses prisiad proffesiynol. Eglurodd y Cynghorydd J. Thompson-Hill bod gweithdrefn gwaredu ar waith, a oedd yn cynnwys Cynllun Dirprwyo, a oedd y tu allan i gylch gwaith y Rheolau Diogelu Defnyddwyr.

***PENDERFYNWYD -** bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn nodi ac yn derbyn y Rheolau Gweithdrefn Contractau diwygiedig ac yn awdurdodi eu cyflwyno i'r Cyngor llawn i'w cymeradwyo ym mis Rhagfyr, 2014.*
*(b) yn cytuno bod y cynnig o hyfforddiant i Aelodau Etholedig o ran Rheolau Gweithdrefn Contractau yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad i'w gyflwyno i'r Cyngor, ac*
*(c) yn gofyn i'r ASPM ddarparu ymateb i Mr P. Whitham mewn perthynas â materion sy'n ymwneud ag agregau.*

*(SA i Weithredu)*

## 10 EICH LLAIS - DEFNYDDIO ADBORTH CWSMERIAID

Roedd adroddiad gan Bennaeth Cefnogaeth Cwsmeriaid ac Addysg (PCChA), a ddarparodd drosolwg o weithgareddau ymgysylltu â chwsmeriaid ar draws yr Awdurdod ac enghreifftiau penodol o wasanaethau sy'n defnyddio adborth cwsmeriaid i gynllunio a darparu gwasanaethau wedi cael ei ddosbarthu'n flaenorol.

Cafodd yr adroddiad ei gyflwyno yn dilyn trafodaeth yn y Pwyllgor Archwilio Perfformiad ynglŷn â sut yr ymatebodd yr Awdurdod i adborth cwsmeriaid a gweithredu yn sgil hynny. Cadarnhawyd y dylai parhau i chwilio am ffyrdd i wella gwasanaethau fod yn rhan hanfodol o weithgarwch y busnes. Roedd y defnydd o adborth gan gwsmeriaid a gafwyd, a oedd yn cynnwys cwynion, canmoliaeth ac awgrymiadau, yn darparu cyfleoedd i wella cynllun a darpariaeth gwasanaethau, gan feithrin hyder y cyhoedd bod yr Awdurdod yn nodi ac yn gweithredu ar adborth gan gwsmeriaid.

Gofynnwyd i bob gwasanaeth ddarparu enghreifftiau o'r mecanwaith a ddefnyddir ganddynt i ymgysylltu â'u cwsmeriaid, gan ganolbwyntio'n benodol ar ddefnyddio adborth wrth gynllunio a darparu gwasanaethau. Cafodd manylion am y broses eu darparu yn Atodiad 1 yr adroddiad. Roedd ymgynghoriadau'n cynnwys adroddiadau misol i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth, gan adrodd yn ôl bob chwarter i'r Pwyllgor Archwilio Perfformiad, ac adroddiadau blynyddol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Ymatebodd y PCChA i gwestiwn gan y Cynghorydd J. Butterfield ac eglurodd y broses a fabwysiadwyd, drwy'r Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol, ar gyfer ymgysylltu â Threfi a Chynghorau Cymunedol a Grwpiau o Gwsmeriaid i fynd i'r afael â materion lefel gwasanaeth. Tynnwyd sylw at ddatblygiad y gwasanaeth EMMA a Chalendr Digwyddiadau'r Holl Aelodau, drwy ddefnyddio adborth gan Grŵp Ymwybyddiaeth o Hyfforddiant i Aelodau.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn yr adroddiad ac yn nodi defnydd yr Awdurdod o adborth cwsmeriaid.*

## 11 ADRODDIAD BLYNYDDOL EICH LLAIS 2013/14

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg (PCChA), a ddarparodd trosolwg o'r adborth a gafwyd drwy bolisi adborth cwsmeriaid Sir Ddinbych 'Eich Llais' yn ystod y cyfnod 01/04/13 i 31/03/14, wedi'i ddosbarthu'n flaenorol. Nid oedd yr adroddiad yn cynnwys data Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd ei adrodd ar wahân.

Eglurodd y PCChA fod adrodd am gwynion yn cael ei annog ac nad oedd cwynion yn cael eu hystyried yn negyddol gan eu bod yn gyfle i wella'r gwasanaeth a ddarperir. Cyflwynodd yr adroddiad drosolwg o'r nifer a'r mathau o adborth a

gafwyd yn ystod 2013/14, a’r wybodaeth ynglŷn ag Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru a’r llythyr ategol.

Cafodd y penawdau canlynol ar gyfer 2013/14 eu cynnwys yn Atodiad 1:-

- Cofnodwyd cyfanswm o 510 o gwynion - gostyngiad o 8% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle cafwyd 556 cwyn.

- Yn ystod y flwyddyn, ymatebwyd i 96% (488/510) o'r cwynion o fewn terfynau amser 'Eich Llais'. Roedd hyn yn welliant o gymharu â ffigur 2012/13 o 93% ac roedd yn rhagori ar y targed corfforaethol o 95%.

- Lleihaodd nifer y cwynion a ddeliwyd â hwy’n llwyddiannus ar gam 1 o 94% y llynedd i 91%.

- Cafodd cyfanswm o 749 o ganmoliaethau eu cofnodi. Gostyngiad o 9% o gymharu â'r flwyddyn flaenorol lle cafwyd 820 canmoliaeth.

- Cofnodwyd cyfanswm o 67 o awgrymiadau, sef cynnydd o 319% o gymharu â chyfanswm y flwyddyn flaenorol o 16. Byddai’r maes hwn yn cael ei hyrwyddo i annog mwy o adborth er mwyn llunio ein gwasanaethau.

Gwnaed tri deg chwech o gwynion i'r Ombwdsmon yn ystod 2013/14, a oedd yn uwch na chyfartaledd Awdurdod Lleol Cymru, fel y nodir yn Atodiad 2. Nid oedd hyn yn destun pryder gan mai dim ond dwy gŵyn yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol a gafodd eu hymchwilio gan yr Ombwdsmon, a oedd yn cyfateb i gyfartaledd Awdurdod Lleol Cymru. Cyhoeddwyd un adroddiad Adran 21 a oedd yn ymwneud â Gwasanaethau Cymdeithasol i Oedolion. Cafodd crynodebau o’r cwynion eu cynnwys yn Atodiad 3.

Gwnaed pedwar cwyn am Aelodau yn torri'r Cod Ymddygiad yn ystod 2013/14, yr un nifer â'r llynedd, fel y nodwyd yn Atodiad 4. Roedd ymgynghori yn cynnwys cyflwyno adroddiadau misol i'r UDA, adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Craffu Perfformiad ac Adroddiad Blynyddol i’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Cwestiynodd y Cadeirydd y posibilrwydd o archwilio cyflwyno proses i fynd i'r afael â chwynion sy’n ymwneud â gwasanaethau a oedd yn wynebu toriadau gorfodol yn y gyllideb. Eglurodd y PCChA fod gwaith rhagweithiol yn cael ei wneud gyda darparwyr gwasanaethau i archwilio safonau gwasanaeth, o ran rheoli disgwyliadau cwsmeriaid. Tynnwyd sylw at yr angen i gyfathrebu â chwsmeriaid ynghylch lefelau darparu gwasanaethau, ynghyd â'r angen i wahaniaethu ynglŷn â natur y cwynion a dderbynnir, oherwydd nid yw pob cwyn o reidrwydd yn cael eu priodoli i'r toriadau.

Cyfeiriodd Mr P. Whitham at y dilema o risgiau yn deillio o wella gwasanaethau tra'n mynd i'r afael â'r mater o argaeledd cyfyngedig o adnoddau. Mewn ymateb i gwestiwn gan y Cynghorydd G.M. Kensler, eglurodd y PCChA fod y Pwyllgor Craffu Perfformiad wedi cael eu hannog i edrych yn fanwl ar natur benodol y cwynion mewn meysydd gwasanaethau unigol, a byddai hyn yn cael ei gyflawni gyda chyfranogiad Aelodau Arweiniol a Phenaethiaid Gwasanaethau perthnasol.

Tynnodd y Cynghorydd M.L. Holland sylw at yr angen i wahaniaethu rhwng ceisiadau a chwynion gwasanaethau, a'r posibilrwydd y gallai nifer y cwynion a gofnodwyd ymwneud ag un mater penodol.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi perfformiad y gwasanaethau.*

## 12 CYLCH GORCHWYL PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cafodd adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro, a oedd yn ceisio barn y Pwyllgor ar drosglwyddo meysydd o Gylch Gorchwyl y Pwyllgor i Bwyllgor Safonau'r Cyngor yn flaenorol.

Eglurodd yr HLHDS fod llwyth gwaith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn cynyddu. Roedd yr adroddiad yn gofyn am safbwyntiau ar drosglwyddo meysydd y gellid ymdrin â hwy o bosibl gan y Pwyllgor Safonau.

Roedd ‘awdurdod’ presennol y Pwyllgor Safonau ond yn ymdrin â chydymffurfio monitro â’r Cod Ymddygiad i Aelodau, codi safonau moeseg a gonestrwydd, hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a chwynion ynghylch Aelodau a delio â chyfeiriadau gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC); gan gynnwys chwarae rôl ym Mhrotocol Hunan Reoliadol y Cyngor. Roedd y Pwyllgor Safonau yn cyfarfod bob dau fis ar gyfartaledd ac yn cynnwys 2 Gynghorydd Sir, 4 aelod annibynnol a gafodd eu recriwtio drwy hysbyseb cyhoeddus ac 1 aelod o Gyngor Cymuned. Dim ond pan fyddai’r mwyafrif sy’n bresennol yn Aelodau annibynnol y gallai’r Pwyllgor Safonau fod yn gworwm.

Roedd rhai awdurdodau lleol wedi ymestyn cylch gorchwyl eu Pwyllgor Safonau i ymdrin â materion fel rhannu pryderon a chwynion i Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru gan aelodau o'r cyhoedd ynghylch camweinyddu. Eglurodd y Dirprwy Swyddog Monitro fod cyfle i ystyried llwyth gwaith cynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol a’i drosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau. Byddai'r penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Cyngor Llawn ac yn cael ei ymgorffori yn yr adolygiad o'r Cyfansoddiad. Roedd yr adroddiad yn gofyn am farn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ar yr ymagwedd hon.

Roedd trafodaethau rhwng Cadeiryddion y Pwyllgorau yn ymddangos bod lle i ddadlau ar drosglwyddo rhai neu bob un o'r meysydd canlynol o’r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i’r Pwyllgor Safonau, yn ogystal â chadw ei gylch gwaith presennol:-

a) Rhannu pryderon.
b) Indemniadau ar gyfer Swyddogion ac Aelodau.
c) Cwynion gan gynnwys Cwynion i’r OGCC gan aelodau o'r cyhoedd am y Cyngor (camweinyddu).
d) Cwynion Comisiynydd Gwybodaeth ac adolygiad o weithgareddau’r Cyngor o dan y Ddeddfwriaeth Gwybodaeth (Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth).

Cafodd y materion eu trafod yn sydyn yn y Pwyllgor Safonau ar 18 Gorffennaf, 2014 ac roedd diddordeb wedi bod mewn ymgymryd â chylch gwaith ehangach.

Mynegwyd y safbwyntiau canlynol gan Aelodau o'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol: -

Teimlai'r Cadeirydd y gellid trosglwyddo a) a b) i'r Pwyllgor Safonau, ond mynegodd amheuon ynghylch trosglwyddo c) a d). Teimlai y dylai d) aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, fel c), a allai olygu mynd i'r afael â materion ar lefel gorfforaethol.

Mynegodd y Cynghorydd G.M. Kensler y farn y gellid trosglwyddo d) i'r Pwyllgor Safonau, a chadw a) ac c) gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Teimlai'r Cynghorydd J. Butterfield y gellid trosglwyddo a), b), ac c) i'r Pwyllgor Safonau, ond roedd angen rhagor o wybodaeth mewn perthynas â d).

Cyfeiriodd y Cynghorydd M.L. Holland at gyfansoddiad y Pwyllgor Safonau. Roedd o'r farn y gellid trosglwyddo a) i'r Pwyllgor Safonau o ystyried y gymhareb o Aelodau Annibynnol.

Awgrymodd Mr P. Whitham y gallai'r gwaith a wneir gan y Pennaeth Archwilio Mewnol, o ran blaen raglen waith y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a chynnwys Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, gael eu defnyddio wrth ystyried trosglwyddo meysydd gwaith. Gan fod d) wedi cael ei nodi fel Risg Gorfforaethol, teimlai y dylai aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, a gan fod a) yn rhan annatod o'r Polisi Gwrth-dwyll, Llygredigaeth a Llwgrwobrwyo, y dylai aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Hysbysodd HLHDS y Pwyllgor y byddai angen taro cydbwysedd o ran d) ynghylch ble byddai'r lle mwyaf priodol i osod meysydd gwaith. Eglurodd y byddai swyddogion yn delio â cheisiadau am wybodaeth a bod Polisi ar waith i fynd i'r afael â materion cysylltiedig. Fel un o'r Risgiau Corfforaethol sy'n gysylltiedig â Diogelu Data, awgrymwyd y dylai d) aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol o bosibl. O ran cwynion yn ymwneud â'r Ombwdsmon, esboniwyd y gallai cwynion ymwneud â sut y mae gwasanaeth yn cael ei gyflwyno ac nid yn fater sy'n ymwneud ag ymddygiad Aelod neu gyflogai.

Amlygodd y Pennaeth Archwilio Mewnol bwysigrwydd yr angen i wahaniaethu rhwng rolau'r ddau Bwyllgor priodol. Eglurodd y gallai cwynion a dderbyniwyd ymwneud ag unigolyn neu system, neu ymddygiad swyddogion neu Aelodau, a chwestiynodd a fyddai'n briodol i'r Pwyllgor Safonau archwilio cwynion sy'n seiliedig ar wasanaethau. Cymeradwyodd PCChA y safbwyntiau a fynegwyd bod mater y cwynion yn fater gwasanaeth ac y dylai aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Ymatebodd y Cynghorydd B.A. Smith i gwestiynau gan Aelodau a chyfeiriodd at y rhestr o Bolisïau'r Cyngor, yr oedd AD yn gweithio arnynt i'w gwneud yn haws eu defnyddio.

Crynhodd y Cadeirydd y drafodaeth a chadarnhaodd y Pwyllgor y canlynol: -

a) Rhannu pryderon - Mynegwyd safbwyntiau amrywiol.
b) Indemniadau ar gyfer Swyddogion ac Aelodau – Gellid eu trosglwyddo i'r Pwyllgor Safonau.
Cwynion gan gynnwys Cwynion i'r OGCC gan aelodau o'r cyhoedd am y Cyngor (camweinyddu) – Mynegwyd safbwyntiau amrywiol. Dylai cwynion lefel gwasanaeth aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol, tra gallai cwynion yn ymwneud ag unigolion gael eu trosglwyddo o bosibl i'r Pwyllgor Safonau.
Cwynion Comisiynydd Gwybodaeth ac adolygiad o weithgareddau'r Cyngor o dan y Ddeddfwriaeth Gwybodaeth (Diogelu Data a Rhyddid Gwybodaeth) – Consensws cyffredinol safbwyntiau yw aros gyda'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

Yn ystod y drafodaeth a ddilynodd, gofynnodd y Pwyllgor i'r HLHDS gynnwys barn y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn yr Adolygiad Cyfansoddi, cysylltu â'r Pwyllgor Safonau ynghylch y safbwyntiau a fynegwyd, edrych ar y Cyfansoddiad yn ei gyd-destun ehangach a chyflwyno adroddiad cynnydd pellach i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol:-*

*(a) yn derbyn ac yn nodi'r manylion yn yr adroddiad.*
*(b) yn gofyn bod HLHDS yn cynnwys barn y Pwyllgor o ran yr Adolygiad Cyfansoddi, cysylltu â'r Pwyllgor Safonau ynghylch y safbwyntiau a fynegwyd ac yn edrych ar y Cyfansoddiad yn ei gyd-destun ehangach, ac*
*(c) yn cytuno bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn adroddiad cynnydd pellach.*
***(GW ac IB i Weithredu)***

## 13 DIWEDDARIAD CYNLLUN GWELLA LLYWODRAETHU

Roedd adroddiad gan y Pennaeth Archwilio Mewnol wedi'i ddosbarthu'n flaenorol.

Cyflwynodd y Pennaeth Archwilio Mewnol yr adroddiad ac eglurodd fod diweddariad ar y Cynllun Gwella Llywodraethu a gyflwynwyd ar 29 Medi, 2014, wedi cynnwys bylchau lle nad oedd ymatebion wedi dod i law oddi wrth swyddogion allweddol, a gofynnodd yr Aelodau am y diweddaraf ar yr eitemau nodedig hynny yn y cyfarfod nesaf.

Cafodd teitl 'datganiad llywodraethu blynyddol' diweddaraf y Cyngor ei alw yn 'Darparu llywodraethu da a gwelliant parhaus'. Roedd y ddogfen yn darparu hunanasesiad eglur a chytbwys o drefniadau llywodraethu'r Cyngor, gan dynnu sylw at unrhyw wendidau llywodraethu arwyddocaol a meysydd eraill i'w gwella.

Roedd meysydd gwella wedi eu cynnwys yng Nghynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol, a oedd yn cynnig camau gweithredu i fynd i'r afael â gwendidau, y swyddogion sy'n gyfrifol am y camau gweithredu hynny ac amserlenni. Roedd y diweddariad cyntaf i'r Pwyllgor ar 29 Medi, 2014 wedi bod yn anghyflawn, gan nad oedd ymatebion wedi cael eu darparu er mwyn galluogi i'r Pennaeth Archwilio

Mewnol ddiweddaru'r Cynllun cyfan. Roedd yr ymatebion hyn bellach wedi'u derbyn ac wedi'u cynnwys yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

Pe na bai Cynllun Gwella'r Drefn Lywodraethol yn cael ei weithredu, cadarnhaodd y Pennaeth Archwilio Mewnol y byddai gwendidau yn aros yn nhrefn lywodraethol y Cyngor, a allai arwain at:-

- adroddiadau rheoleiddiol niweidiol;
- defnydd gwael o arian cyhoeddus;
- methiant i wella meysydd corfforaethol a meysydd gwasanaeth allweddol;
- colli hyder budd-ddeiliaid; ac
- effaith andwyol ar enw da'r Cyngor.

Yn dilyn trafodaeth bellach:-

***PENDERFYNWYD -*** *bod y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol yn derbyn ac yn nodi'r adroddiad.*

## 14 ADBORTH O'R CYFARFOD CYDRADDOLDEB CORFFORAETHOL

Esboniodd y Cynghorydd M.L. Holland nad oedd y Grŵp Cydraddoldeb Corfforaethol wedi cyfarfod ers cyflwyno'r adroddiad blaenorol i'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol.

## 15 RHAGLEN WAITH Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol (a gylchredwyd eisoes) i'w ystyried.

Cadarnhaodd y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Pwyllgor yn amodol ar gynnwys yr adroddiadau canlynol:-

**17 Rhagfyr, 2014:-**

- Adroddiad diweddaru gan y Pennaeth Archwilio Mewnol ar Daliad Ariannol i rai sy'n gadael gofal.
- Adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar Drefniadau Cynllunio Ariannol Sir Ddinbych.
- Adroddiad Blynyddol AGGCC.
- Adroddiad Cyfansoddiad Enghreifftiol newydd i'w aildrefnu ar gyfer 28 Ionawr, 2015.

**28 Ionawr, 2015:-**

- Adroddiad Blynyddol AGGCC.
- Adroddiad ar y Cyfansoddiad Enghreifftiol Newydd.

***PENDERFYNWYD** - yn amodol ar yr uchod bod y Pwyllgor yn cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.*

*Daeth y Cyfarfod i ben am 13.25 pm.*